Owen Morgan Edwards: 1858–1920

Yr arolygwr o Goed y Pry

Gostyngeiddrwydd / dyfalbarhad / cryfder

Yng Nghoed-y-Pry, ym mhlwyf Llanuwchllyn, Sir Feirionnydd, y ganed Owen Edwards. Er mai Cymraeg oedd iaith ardal Llanuwchllyn, nid felly'r ysgol. Cafodd Owen amser digon annedwydd yn yr ysgol – Ysgol y Llan. Roedd yr addysg yn Seisnig iawn.

Dyma ddywedodd am ei athrawes, "Ni fedrai wenu ond wrth siarad Saesneg. Sur iawn oedd ei gwep wrth orfod diraddio ei hun i siarad Cymraeg."

Dowch i ni gael cyfle i holi dipyn mwy ar Owen Edwards.

Fedrwch chi ddweud dipyn mwy wrthyn ni am eich addysg gynnar?

Roeddwn i'n casáu'r ysgol. Cefais fy rhoi mewn dosbarth i ddysgu darllen Saesneg. Roeddwn i'n medru darllen Cymraeg yn rhugl. Cofiwch, roeddwn i'n mynd i'r Ysgol Sul bob Sul ac yn fan'na y dysgais i ddarllen Cymraeg. Yn yr ysgol bob dydd doeddech chi ddim yn cael siarad Cymraeg o gwbl. Ac os oeddech chi'n cael eich dal yn siarad Cymraeg, yna roeddech chi'n cael tocyn pren am eich gwddw, sef y *Welsh Not*. Fe ges i hwnnw am fy ngwddw sawl tro. A phwy bynnag oedd efo'r tocyn pren am ei wddw ar ddiwedd y dydd byddai'n cael blas y wialen. Roeddwn i'n casáu yr ysgol fach.

Gawn ni neidio felly o'r cyfnod annymunol hwnnw i gyfnod difyrrach yn eich hanes – cyfnod golygu'r cylchgronau?

Teimlo roeddwn i bod addysg plant Cymru yn gyfyng iawn. Pan oeddwn i yn Ysgol y Llan mi faswn i wrth fy modd yn cael gwersi ar fyd natur a gwybod mwy am y byd. Felly dyma fynd ati i olygu cylchgrawn i bobl Cymru, sef *Cymru* neu'r *Cymru Coch* fel roedd o'n cael ei alw. Wedyn dyma fynd ati flwyddyn ar ôl cyhoeddi *Cymru* i gyhoeddi cylchgrawn i blant Cymru sef *Cymru'r Plant.* Amcan y cylchgrawn hwn oedd ehangu gwybodaeth plant Cymru ar bynciau fel natur a gwyddoniaeth, am wledydd eraill a hynny mewn Cymraeg syml. Dyma i chi gynnwys rhifyn Medi 1914 – ysgrif ar *Awyr*, ysgrifau am *Adar bach y wlad, Coed a Blodau'r Beibl, Rhwd* a *Cherddorion Enwog*, ynghyd â straeon a barddoniaeth a digonedd o ddarluniau.

Mi roeddech chi'n weinidog. Oedd yna ysgrifau am y Beibl yn y cylchgrawn?

Do, mi fûm i yn weinidog am gyfnod byr iawn yng Nghaernarfon

ond wnes i ddim aros yno'n hir. Mi es i yn ôl i fywyd academaidd a mynd yn diwtor yn un o golegau Rhydychen. Ond i ddod yn ôl at eich cwestiwn. Fel y gwyddoch chi, roedd yna nifer fawr o gylchgronau gan y gwahanol enwadau yng Nghymru, e.e. *Trysorfa'r Plant,* lle roedd y plant yn cael digon o hanesion o'r Beibl. Oedd, mi oedd yna ambell ysgrif yn ymwneud â'r Beibl neu hanes Iesu Grist yn *Cymru'r Plant*.

Wedyn fe gawsoch chi eich codi yn Brif Arolygwr Addysg Cymru.

Do, ym 1907. Un peth roeddwn i eisiau ei weld yng Nghymru oedd diwedd ar yr Ysgolion Eglwys ac Ysgolion yr Ymneilltuwyr. Ac fe wnes i ddechrau ar hyn yn fy ardal fy hun, yn Llanuwchllyn. Yr hyn roeddwn i am ei weld oedd addysg Gristnogol yn ysgolion Cymru. Ac fe lwyddais i ddechrau yn Llanuwchllyn. Fe ddaeth Ysgol y Llan ac Ysgol y Pandy yn un ysgol a'r plant yn ymuno yn Ysgol y Pandy gan ei fod yn well adeilad. Ond mae'n rhaid i mi ddweud yn blwmp ac yn blaen mai yn yr Ysgolion Sul y gwelais i yr addysg orau.

Oes gennych chi stori ddiddorol i gloi ein sgwrs?

Mynd i weld un ysgol yn Aberystwyth, mynd yno fel prif arolygwr, wrth gwrs. A dyma guro ar ddrws un dosbarth a dyma'r athrawes i'r drws ac meddai hi wrtha i yn Saesneg, "Dydan ni ddim eisiau prynu llyfrau heddiw, diolch yn fawr." A chloi'r drws yn glep yn fy ngwyneb!

Mr Owen Morgan Edwards, diolch i chi am rannu rhai o'ch profiadau gyda ni.

"Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog."
Ecc. 44:1

O Dduw,
diolch i ti am Gymry da
fel O.M.Edwards.
Dyma bobl i'w hedmygu
a dilyn eu hesiampl
Nhw ydi'n gwir arwyr.
Amen.

Sut ydych chi'n meddwl roedd O.M.Edwards wedi llwyddo i wneud yr holl waith o gyhoeddi llyfrau, golygu cylchgronau a gwneud ei waith bob dydd? Ymhle roedd ei gyfrinach?